Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Gymunedol Bancffosfelen**
**Heol Bancffosfelen**
**Pontyberem**
**Llanelli**
**Caerfyrddin**
**SA15 5DR**

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2018**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gymunedol Bancffosfelen

Lleolir Ysgol Gymunedol Bancffosfelen, yng Nghwm Gwendraeth, rhyw chwe milltir o dref Caerfyrddin. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref ei hun a'r ardal wledig o'i chwmpas.

Mae 47 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr. Addysgir y disgyblion mewn dau ddosbarth, un ar gyfer y cyfnod sylfaen a'r llall ar gyfer cyfnod allweddol 2.

Dros dreigl tair blynedd, mae tua 23% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn uwch na'r ganran genedlaethol, sef 19%. Daw 38% o'r disgyblion o gartrefi ble siaredir y Gymraeg fel iaith yr aelwyd ac mae pob disgybl o gefndir gwyn Prydeinig. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn y cyfnod sylfaen ac anelir at sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog erbyn diwedd cyfnod allweddol 2. Mae'r ysgol yn adnabod 19% o'i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, sydd ychydig yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 21%.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011. Bu'r ysgol heb bennaeth ers Hydref 2017. Mae'r pennaeth presennol, ers mis Mawrth 2018, ar secondiad o Ysgol Llannon am ddau diwrnod yr wythnos.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae'r pennaeth, sy'n rhannu ei hamser rhwng Ysgol Bancffosfelen ac ysgol gyfagos, yn cynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol.  Mae ganddi weledigaeth gadarn ar gyfer herio a datblygu'r ysgol sy'n canolbwyntio'n effeithiol ar ethos yr ysgol, darparu addysgu effeithiol a chodi safonau disgyblion.  Mae'r weledigaeth hefyd yn seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl a hybu eu Cymreictod.  Mae'r ysgol wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd staffio ers rhai blynyddoedd.  Mewn amser byr iawn, mae'r pennaeth yn darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio'n llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i gyflawni'r weledigaeth hon.  Mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio fel tîm agos er budd yr holl ddisgyblion ac maent yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i gymuned yr ysgol.  Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth hir dymor yr ysgol yn parhau'n ansefydlog.

Ar y cyfan, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion yn briodol ac maent yn darparu tasgau diddorol sy'n cwrdd ag anghenion y mwyafrif o ddisgyblion.  Mae'r staff wedi gweithio'n galed i ddatblygu ardal allanol ysgogol i'r disgyblion.  Fodd bynnag, nid yw egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith.

Mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd digonol neu well yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol.  Yn gyffredinol, dros y tymor diwethaf, mae cyflawniad a chyrhaeddiad disgyblion yn dechrau gwella.  Er hynny, nid yw'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Digonol ac angen gwella** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Digonol ac angen gwella** |

## Argymhellion

A1 Sicrhau arweinydd sefydlog i'r ysgol

A2 Cynyddu lefel yr her yn yr addysgu

A3 Gweithredu egwyddorion y cyfnod sylfaen yn llawn

A4 Gwella medrau llafar a medrau ysgrifennu Cymraeg disgyblion

A5 Gwella medrau rhifedd a TGCh disgyblion

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn adolygu cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Digonol ac angen gwella**

Ar fynediad i'r ysgol, mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion yn is na'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Er hynny, mae bron pob disgybl, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd digonol neu well yn eu dysgu yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Yn gyffredinol, dros y tymor diwethaf, mae cyflawniad a chyrhaediad disgyblion yn dechrau gwella. Er hynny, nid yw'r disgyblion yn cyflawni hyd eithaf eu gallu yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh).

Mae llawer o'r disgyblion yn gwrando'n dda ac yn dechrau cyfrannu'n briodol i drafodaethau dosbarth. Mae medrau meddwl llawer o ddisgyblion yn datblygu'n addas yn ystod eu hamser yn yr ysgol.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r disgyblion yn datblygu medrau llafar yn hyderus wrth gyfathrebu â'u cyfoedion ac oedolion. Yn fuan ar ôl cychwyn yn y cyfnod sylfaen, maent yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau cyfarwydd yn y Gymraeg drwy ddefnyddio patrymau brawddeg syml yn gywir. Erbyn Blwyddyn 2, lleiafrif sydd yn gallu cynnal sgwrs a mynegi eu syniadau'n glir wrth ymgymryd â gwahanol weithgareddau a thrafod eu llyfrau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn siarad yn eglur ac yn ymateb yn addas mewn trafodaethau am yr hyn y maent yn ei wneud yn synhwyrol. Maent yn defnyddio geirfa addas mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd wrth drafod gwaith thema mewn grwpiau. Mae llawer erbyn diwedd cyfnod allweddol 2 yn cyrraedd safon dda o ddwyieithrwydd. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg o'u gwirfodd mewn sefyllfaoedd anffurfiol o amgylch yr ysgol.

Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu'n briodol ac yn unol â'u gallu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau dod i adnabod seiniau llythrennau ac yn dechrau adeiladu geiriau'n gynyddol hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn defnyddio amrywiaeth o strategaethau addas i ddarllen yn gymharol rhugl a chywir ac yn rhoi sylw da i'r atalnodi. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau darllen yn y Gymraeg a'r Saesneg yn llwyddiannus, ac yn dangos dealltwriaeth da o'r testun. Maent yn mynegi barn am storïau yn eu llyfrau ac yn rhoi sylw teilwng i atalnodi a dyfynodau. Fodd bynnag, mae uwch fedrau darllen y disgyblion, fel cywain gwybodaeth i'w defnyddio mewn gwaith thema, yn wan.

Ar draws y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn briodol mewn ystod addas o ffurfiau gwahanol. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu dilyniant o frawddegau gyda chywirdeb, gan ddefnyddio atalnodi a sillafu ar lefel sy'n addas i'w hoed a'u gallu. Maent yn defnyddio ansoddeiriau a geirfa ddiddorol yn eu gwaith ysgrifenedig, er enghraifft wrth ysgrifennu adroddiad papur newydd yn seiliedig ar stori 'Y Feipen Fawr '. Ychydig o ddisgyblion mwy abl sy'n dechrau dewis a dethol geiriau mwy cymhleth er mwyn creu effeithiau a chynnal diddordeb y darllenydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn ysgrifennu'n briodol i'w hoed a'u gallu yn y Gymraeg, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr perswâd i annog y cyngor lleol i leihau cyflymder

traffig tu allan i'r ysgol oherwydd peryglon ceir sy'n teithio'n gyflym. Fodd bynnag, mae cystrawen brawddegau lleiafrif o ddisgyblion yn wan ac mae gwallau elfennol yn safon yr atalnodi. Mae safonau ysgrifennu Saesneg llawer o ddisgyblion yn gadarn. Enghraifft nodedig yw'r ffordd mae disgyblion yn ysgrifennu adolygiad o'u hoff lyfr ac adroddiad papur newydd yn seiliedig ar effaith llygredd ar yr ardal leol. Erbyn diwedd Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn atalnodi a pharagraffu er mwyn strwythuro a threfnu eu darnau ysgrifenedig. Fodd bynnag, mae gorddibyniaeth ar daflenni gwaith yn llesteirio gallu'r disgyblion i ysgrifennu'n annibynnol, yn rhwydd ac estynedig, er bod hyn yn dechrau gwella'n ddiweddar. Nid yw llawysgrifen a chyflwyniad mwyafrif y disgyblion bob amser yn daclus.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio a chymhwyso eu medrau rhifedd yn gyson mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mewn ystod gyfyng o sefyllfaoedd, maent yn datrys problemau rhif syml yn addas, defnyddio arian mewn sefyllfa bob dydd a defnyddio unedau mesur yn gywir. Yn ddiweddar, mae llawer yn cymhwyso'u medrau rhif yn dda i ddatrys problemau yng nghyd-destun gwaith thema. Enghraifft dda o hyn yw'r ffordd mae disgyblion yn dilyn cyfarwyddiadau i fesur mewn litrau wrth wneud gwahanol fathau o foddion i'r môr ladron sy'n 'gwella peswch cas a bola tost'.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae mwyafrif y disgyblion yn defnyddio ystod addas o strategaethau i ddatrys problemau yn briodol a chymhwyso'u medrau rhifedd yn hyderus. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd yn addas wrth gofnodi canlyniadau ymchwiliadau gwyddonol. Er hynny, nid yw disgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio eu medrau rhifedd yn ddigon cyson mewn agweddau eraill ar draws y cwricwlwm.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mwyafrif o ddisgyblion yn datblygu'n briodol. Mae gan lawer ddealltwriaeth gadarn o sut i gadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod addas o feddalwedd a chyfarpar yn briodol mewn gwahanol feysydd dysgu. Mae llawer o ddisgyblion ieuengaf yr ysgol yn hyderus wrth reoli tegan er mwyn dilyn llwybr ar draws ynys y môr ladron. Er enghraifft, mae disgyblion diwedd y cyfnod wedi creu graff ar sut i deithio i'r ysgol ac yna'n ysgrifennu paragraff gan roi rhesymau am y canlyniadau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn defnyddio rhaglenni addas i gyfathrebu gwybodaeth, er enghraifft wrth greu pwynt pŵer ar wledydd cwpan y byd wrth gyfuno lluniau a gwaith ysgrifenedig yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw ystod medrau mwyafrif o'r disgyblion ar draws yr ysgol wedi datblygu'n ddigon effeithiol i gefnogi'u gwaith ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu: Da**

Mae'r berthynas waith sy'n bodoli rhwng y disgyblion a'r staff yn gadarn yn yr ysgol ac yn sylfaen effeithiol ar gyfer cynnal ethos gofalgar a chefnogol. Mae bron pob disgybl yn siarad gyda balchder am eu hysgol.

Mae gan ddisgyblion lefel uchel o ymddiriedaeth yn y staff ac maent yn gwybod y byddant yn gwneud eu gorau drostynt. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn mwynhau'r ysgol, yn deall beth i'w wneud os bydd unrhyw beth yn eu poeni ac yn teimlo'n hollol ddiogel yno.

Mae gan lawer o'r disgyblion ddealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar y rhyngrwyd. Mae llawer o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda ac yn ofalgar iawn o'i gilydd. Enghraifft o hyn yw'r modd aeddfed mae disgyblion Blwyddyn 6 yn cynorthwyo hwyrddyfodiaid i'r ysgol yn y gwersi. Mae llawer o'r disgyblion hynaf yn deall pwysigrwydd cynaliadwyedd trwy gynnal a chadw safle'r ysgol yn daclus.

Mae gan bron pob disgybl ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac o sut i gadw'n heini. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus trwy weithgareddau corfforol o fewn y cwricwlwm ac wrth arwain a chymryd rhan mewn gweithgareddau addysg gorfforol yn gyson, fel y clybiau amser cinio a rhedeg milltir y dydd.

Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn manteisio ar gyfleoedd i ddatblygu medrau bywyd, er enghraifft wrth baratoi bwyd i gystadleuaeth Cogurdd, perfformio'n gyhoeddus a chodi arian ar gyfer elusennau. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at ddatblygu eu medrau personol a chymdeithasol.

Mae llawer o ddisgyblion yn arddangos ymagweddau cadarnhaol at ddysgu. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn hyderus wrth drafod eu gwaith ac yn sôn am sut maent wedi ei wella. Mae llawer o'r disgyblion yn trafod yn effeithiol mewn parau ac mewn grwpiau. Maent yn cydweithio'n dda â'u cyfoedion, gan gynnig cymorth i'w gilydd pan fo angen. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'n ddysgwyr mwy hyderus. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar iawn mae disgyblion yn dechrau gweithio'n annibynnol a gwneud penderfyniadau am sut a beth maent yn ei ddysgu.

Mae'r disgyblion sy'n rhan o bwyllgorau amrywiol yr ysgol yn datblygu eu cyfrifoldebau yn dda. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 6 yn chwarae gemau ar yr iard gyda disgyblion y cyfnod sylfaen amser cinio i ddatblygu eu medrau llafar a rhif. Mae'r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco yn cyfrannu'n bwrpasol tuag at welliannau yr ysgol. Enghraifft dda yw sut maent yn codi arian i wahanol elusennau a chasglu croen ffrwythau i greu compost ar gyfer y blodau. Ar y cyfan, mae ymddygiad ar draws yr ysgol yn dda.

Mae dealltwriaeth llawer o ddisgyblion o werthoedd a chydraddoldeb yn datblygu yn dda. Mae'r ysgol yn darparu cyfleoedd buddiol i godi ymwybyddiaeth disgyblion o fod yn ddinasyddion gweithredol, er enghraifft drwy waith a chefnogaeth y grwpiau arweinyddol disgyblion fel y cyngor chwaraeon ac eco a'r cyngor ysgol. Enghraifft arall yw gwaith masnach deg y disgyblion.

Mewn amser byr iawn, mae'r pennaeth wedi gosod gweithdrefnau cadarn sydd wedi cael effaith sylweddol ar ganran presenoldeb yr ysgol.

## Addysgu a phrofiadau dysgu: Digonol ac angen gwella

Mae ansawdd yr addysgu yn ddigonol ac angen gwelliant. Mae athrawon a chynorthwywyr yn sicrhau bod cydberthynas weithgar yn bodoli rhyngddyn nhw â'r disgyblion. Un o gryfderau'r ysgol yw'r ethos gofalgar sy'n bodoli ar draws yr ysgol ble mae disgyblion a staff yn parchu ei gilydd. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol drylwyr ac maent yn cydweithio'n effeithiol gyda'r cynorthwywyr. Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn modelu iaith safonol yn llwyddiannus sy'n gymorth i ddisgyblion ddatblygu eu medrau llafar Cymraeg. Fodd bynnag, nid yw staff bob amser yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau anffurfiol yn ddigon cyson.

Mae'r athrawon yn cynnig cyfleoedd i ddisgyblion weithio mewn parau ac mewn grwpiau bach. Fodd bynnag, mae tueddiad ar adegau i athrawon or-arwain y disgyblion. Mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.

Ar y cyfan, mae cyflwyniadau'r athrawon yn ennyn diddordeb llawer o'r disgyblion yn briodol ac maent yn darparu tasgau diddorol sy'n cwrdd ag anghenion mwyafrif o ddisgyblion. Fodd bynnag, nid yw'r athrawon yn herio pob disgybl i gyflawni hyd eithaf eu gallu. Ar rai adegau, mae disgwyliadau athrawon yn isel. Ar y cyfan, mae'r athrawon yn rhannu cyfarwyddiadau clir ac yn holi'n briodol i ddatblygu dealltwriaeth disgyblion.

Mae'r athrawon yn creu meini prawf llwyddiant yn berthnasol er mwyn gwerthuso i ba raddau mae disgyblion wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ystod y gwersi. Mae athrawon yn cynnig adborth llafar defnyddiol i ddisgyblion ar eu hymdrechion yn y gwersi. Mae gweithdrefnau addas ar waith i ddisgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Yn ddiweddar, mae'r athrawon wedi dechrau darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith ysgrifenedig.

Yn ddiweddar, yn dilyn arweiniad y pennaeth, mae'r ysgol wedi cynhyrchu cynlluniau cwricwlaidd newydd sy'n sicrhau bod yr ysgol yn ymateb yn gadarn i'r gofynion statudol a chwricwlwm newydd i Gymru. Mewn amser byr, mae cynlluniau ar draws yr ysgol wedi gwella ac yn parhau i ddatblygu. Rhoddir sylw da i'r profiadau a ddarperir mewn tasgau ffocws yn y cyfnod sylfaen a'r gweithgareddau addas yng nghyfnod allweddol 2. Fodd bynnag, nid yw'r cynllunio'n sicrhau gweithgareddau cadarn ar gyfer yr ystod gallu er mwyn ymateb i anghenion pob disgybl. Mae'r staff wedi gweithio'n galed i ddatblygu ardal allanol ysgogol i'r disgyblion. Fodd bynnag, nid yw egwyddorion y cyfnod sylfaen yn gadarn ar waith gan nad ydynt wedi mynd i'r afael â'r anghysondebau o ran y ddarpariaeth, her ac annibynniaeth y disgyblion.

Mae athrawon yn defnyddio fframweithiau llythrennedd, rhifedd a TGCh yn briodol yn eu cynllunio er mwyn sicrhau cynnydd a dilyniant yn natblygiad medrau'r disgyblion. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i fesur effaith y cynllunio ar ddeilliannau disgyblion. Mae'r ysgol wedi cychwyn gweithredu'r fframwaith cymhwysedd digidol ac yn dechrau datblygu medrau TGCh y disgyblion. Yn ddiweddar, ceir cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau TGCh yn fwy llwyddiannus ar draws y cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn cyfoethogi profiadau dosbarth yn dda trwy ymweliadau a chyfleoedd i fynd ar deithiau preswyl, fel i Langrannog, sydd yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddatblygiad eu medrau Cymraeg. Yn ddiweddar iawn, mae mwyafrif o'r disgyblion yn dechrau ymateb yn bositif i'r Siarter Iaith. Mae'r pennaeth yn eu hannog i ddefnyddio mwy o Gymraeg tu allan ar yr iard amser cinio wrth iddynt addysgu gemau iaith syml i ddisgyblion y cyfnod sylfaen. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y dimensiwn Cymreig yn dda. Caiff disgyblion gyfleoedd i astudio gwaith nifer o artistiaid ac awduron o Gymru, gan gynnwys gwaith Aneirin Karadog a Kyffin Williams. Maent yn dysgu am hanes enwogion Cymreig fel Dewi Sant ac yn ymweld ag ardaloedd lleol yn rheolaidd.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Digonol ac angen gwella

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol ar gyfer monitro presenoldeb ac ymddygiad disgyblion ac yn ddiweddar mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar godi safonau presenoldeb yn yr ysgol.

Er bod gan yr ysgol system i olrhain cynnydd disgyblion, gyda'r athrawon yn casglu gwybodaeth asesu am eu disgyblion, nid yw'n cael ei defnyddio'n briodol i osod her i'r disgyblion mwyaf abl. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi dechrau defnyddio'r wybodaeth i olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddysgwyr a gosod targedau ar gyfer pob disgybl. Mae'r pennaeth wedi dechrau olrhain cynnydd mwy manwl i sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn unigol. Tan yn ddiweddar, prin iawn oedd y dystiolaeth i ddangos cynnydd disgyblion yn ôl targedau eu cynlluniau unigol.

Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cymorth effeithiol yn y dosbarth ac mae'r mwyafrif yn gwneud cynnydd da. Erbyn hyn, mae'r data sy'n cael ei gasglu yn dechrau cael ei ddefnyddio'n effeithiol i adnabod meysydd gwella fel y gallant wneud y cynnydd gorau posibl. Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau cyngor a chymorth effeithiol i'r disgyblion. Yn ddiweddar iawn, mae'r disgyblion sydd ag anghenion emosiynol a chymdeithasol yn cael eu cefnogi'n llwyddiannus o fewn y dosbarth. Mae'r gweithdrefnau hyn, er yn ddiweddar, yn dechrau cael effaith gadarn ar gyrhaeddiad a lles disgyblion ac yn cyfrannu'n dda at ethos gofalgar a chynhwysol yr ysgol. Mae rhaglenni ymyrraeth yn cael eu darparu i'r disgyblion yn rheolaidd ac mae cynnydd yn cael ei gofnodi'n briodol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn unol â'u hoed a'u gallu.

O fewn cyfnod byr, mae'r pennaeth wedi sefydlu perthynas waith lwyddiannus iawn gyda rhieni. Maent yn gwerthfawrogi'r systemau effeithiol o gyfathrebu sydd wedi eu sefydlu'n ddiweddar trwy'r cyfryngau cymdeithasol, y wefan a chylchlythyrau. Oherwydd hyn, mae perthynas effeithiol rhwng yr ysgol a'r rhieni yn sicrhau ymrwymiad y rhieni yn addysg eu plant. Mae'r ysgol yn rhoi gwybodaeth briodol i rieni am gynnydd eu plentyn ac yn nodi'r camau nesaf yn y dysgu.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn llwyddiannus drwy'r cwricwlwm, gwasanaethau a'r celfyddydau creadigol. Enghraifft dda o hyn yw ymweliad â'r Cynulliad yng Nghaerdydd a siambr y cyngor sir er mwyn dysgu am eu cyfrifoldebau.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae llawer iawn o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n iach. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn wedi derbyn hyfforddiant ar sut i gynnal gweithgareddau i'r disgyblion ieuengaf er mwyn datblygu ffitrwydd a medrau chwaraeon disgyblion yn llwyddiannus. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae'r ysgol wedi cydweithio â nifer o gymdeithasau lleol er mwyn cyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o ddiwylliant a hanes eu hardal leol. Enghraifft o hyn yw cydweithio â chymdeithas hanes lleol i gwrdd a sgwrsio gydag ifaciwîs yr ardal. Mae'r disgyblion yn cael profiadau gwerthfawr wrth gymryd rhan mewn cyngherddau, gwasanaethau ac eisteddfodau lleol o fewn y gymuned. O ganlyniad, maent yn hyderus yn perfformio o flaen cynulleidfa, er enghraifft wrth ganu offerynnau yn y gwasanaeth boreol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Digonol ac angen gwella**

Mae’r pennaeth, sy’n rhannu ei hamser rhwng Ysgol Bancffosfelen ac ysgol gyfagos, yn cynnig cyfeiriad strategol clir i waith yr ysgol. Mae ganddi weledigaeth gadarn ar gyfer herio a datblygu’r ysgol sy’n canolbwyntio’n effeithiol ar ethos yr ysgol, darparu addysgu effeithiol a chodi safonau disgyblion. Mae’r weledigaeth hefyd yn seiliedig ar sicrhau llwyddiant i bob disgybl a hybu eu Cymreictod. Mae’r ysgol wedi bod trwy gyfnod o ansefydlogrwydd staffio ers rhai blynyddoedd. Mewn amser byr iawn, mae’r pennaeth yn darparu arweiniad cryf ac yn cydweithio’n llwyddiannus gyda staff, llywodraethwyr, disgyblion a rhieni i gyflawni’r weledigaeth hon. Ers yn ddiweddar, mae cymuned yr ysgol gyfan yn gweithio fel tîm agos er budd yr holl ddisgyblion ac maent yn sicrhau bod lles y disgyblion yn ganolog i gymuned yr ysgol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae arweinyddiaeth hir dymor yr ysgol yn parhau’n ansefydlog.

Mae’r ffocws yn glir ar ddatblygiad strategol yr ysgol lle mae’r pennaeth wedi llwyddo, mewn amser byr, i adnabod cryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol, er enghraifft wrth sicrhau bod prosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella'r ysgol yn bwrpasol ac yn arwain at welliannau. Mae’r ysgol wedi datblygu’r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu yn ddiweddar iawn sydd yn cynnig darlun gonest a chywir o’r ysgol . Er i’r ysgol ddefnyddio tystiolaeth uniongyrchol sydd yn cynnwys dadansoddi data, perfformiad disgyblion, craffu ar lyfrau, arsylwadau gwers, nid yw’r broses o ymateb i’r canfyddiadau wedi cael amser i wreiddio.

Mae cysylltiad da rhwng canfyddiadau'r prosesau hunanarfarnu, sy’n sicrhau bod y cynllun gweithredu’n ddefnyddiol a llwyddiannus. Mae'r cynllun wedi'i gostio’n briodol ac yn cynnwys amserlenni synhwyrol a meini prawf addas i fesur eu heffeithiolrwydd. Mae’r pennaeth wedi dechrau monitro’r cynllun ac mae’r camau diweddar i wella presenoldeb yn dangos llwyddiant mewn amser byr. Mae’r ysgol wedi nodi blaenoriaethau’n briodol, gan roi pwyslais cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae rhy gynnar i allu mesur effaith a chynnydd ar fedrau disgyblion.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol gydag ysgolion lleol er mwyn cydweithio a chydgynllunio. Mae’r pennaeth yn gwrando ar lais a barn rhieni trwy holiaduron perthnasol.

Mae’r pennaeth, mewn amser byr, wedi llwyddo i ddatblygu darpariaeth gadarnhaol, er enghraifft gan godi safonau’r ardaloedd dysgu er mwyn cyrraedd safon dderbyniol a diogel. Mae’r pennaeth wedi sicrhau cydweithio effeithiol rhwng ei dwy ysgol, ac o ganlyniad, mae'r disgyblion wedi elwa o brofiadau llwyddiannus i ennyn chwilfrydedd y dysgu. Er enghraifft, ar ôl gweld ‘Sioe Lyfrau’ mwyaf yn y byd, taniodd frwdfrydedd darllen y disgyblion. Yn ogystal, mae gan yr ysgol rwydwaith llwyddiannus gydag ysgolion eraill yn y clwstwr. Er enghraifft, mae’r ysgol wedi elwa o brosiect gwyddoniaeth i wella medrau a hyder ymchwiliol y disgyblion a’r staff.

Ers iddi gychywn, mae’r pennaeth yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer disgyblion, staff a llywodraethwyr er mwyn datblygu tîm effeithiol a chynaliadwy. Mae’r pennaeth a’r staff yn defnyddio’r Siarter Iaith ac, o ganlyniad, mae’r disgyblion yn dechrau dangos balchder cynyddol yn eu Cymreictod.

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn gefnogol iawn i fywyd a gwaith yr ysgol ac yn ymgymryd â'u dyletswyddau yn gydwybodol. Mae adroddiadau trwyadl y pennaeth yn sicrhau bod ganddynt wybodaeth bwrpasol am berfformiad yr ysgol. Yn ddiweddar, trwy gydweithio'n effeithiol, ymweliadau i'r ysgol, sgwrsio â disgyblion a staff, mae ganddynt afael dda ar safonau'r ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth yn llwyddiannus er mwyn datblygu eu rôl fel ffrind beirniadol yn dda. O ganlyniad, maent, mewn amser byr, yn ymwybodol o gryfderau'r ysgol a'r meysydd sydd angen eu gwella.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol erbyn hyn gyda swydd ddisgrifiadau clir a chyfredol. Mae'r cyfarfodydd staff rheolaidd yn trafod safonau a lles y disgyblion gan ganolbwyntio'n dda ar ymateb i'r blaenoriaethau gwella. Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer datblygu medrau athrawon ymhellach ac sy'n seiliedig ar flaenoriaethau'r cynllun datblygu. O ganlyniad, mae staff yn ddiweddar wedi cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu'n broffesiynol yn unol â'u hanghenion nhw ac anghenion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Er enghraifft, mae'n cyflwyno strategaethau priodol ar gyfer datblygu'r fframwaith Cymhwysedd Digidol a'r Siarter Iaith. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu a chaiff y trefniadau eu rheoli'n dda. Mae pennaeth a'r llywodraethwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus iawn ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Gwna'r ysgol ddefnydd da o'r grant datblygiad disgyblion i wella medrau llythrennedd a rhifedd disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae gan yr ysgol ystod o adnoddau o ansawdd da iawn i hyrwyddo profiadau dysgu'r disgyblion. Mae'r ardaloedd dysgu mewnol ac allanol yn cynnwys ystod o offer pwrpasol ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, cymdeithasol a chorfforol disgyblion. O ganlyniad, maent yn elwa ar ardal ddysgu eang sy'n cymell eu dysgu yn briodol.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2018